Taflen Ffeithiau Budd-daliadau Treth y Cyngor a Budd-daliadau Tai

Mae'r Daflen Ffeithiau hon yn ymwneud â chwynion ynghylch budd-daliadau treth y cyngor a budd-daliadau tai. Dylid ei darllen ochr yn ochr â'r Weithdrefn Gwynion.

Cyngor Sir Caerfyrddin sy'n gyfrifol am weinyddu budd-daliadau treth y cyngor a budd-daliadau tai yn Sir Gaerfyrddin. I wneud hynny rhaid i'r Cyngor weithio yn unol â'r ddeddf berthnasol, rheoliadau a chanllawiau'r llywodraeth.

Gall y Weithdrefn Gwynion:

- edrych ar gwynion ynghylch methiant y Cyngor i roi gwybodaeth briodol i chi am benderfyniad ar fudd-dal neu eich hawl i wneud apêl yn erbyn penderfyniad
- gwirio bod y Cyngor wedi cymryd camau teg i adennill budd-dal a ordalwyd i chi yn unol â'r rheolau
- ystyried materion megis oedi afresymol, methiant i gydnabod eich apêl, methiant i gadw cofnodion priodol, methiant i gyfathrebu'n briodol neu wneud camgymeriadau mewn taliadau

Ni all y Weithdrefn Gwynion:

- eich helpu i wneud hawliad
- cynyddu swm y budd-dal yr ydych yn ei dderbyn
- lleihau'r budd-dal sy'n ddyledus gennych
- ymyrryd ym mhenderfyniad y Cyngor i gymryd camau cyfreithiol yn eich erbyn am dwyll budd-dal
- edrych ar gŵyn lle mae, neu yr oedd, hawl i wneud apêl yn erbyn penderfyniad i'r Gwasanaeth Apelau Annibynnol.

Mae gennych hawl cyfreithiol i wneud apêl yn erbyn nifer o benderfyniadau yn ymwneud â budd-daliadau treth y cyngor a budd-daliadau tai. Os credwch fod y Cyngor yn anghywir i wrthod budd-dal i chi, os yw swm y budd-dal yn anghywir neu nid chi sy'n gyfrifol am fudd-dal a ordalwyd, dylech yn y lle cyntaf ysgrifennu i'r Cyngor. Os ydych yn dal i fod yn anfodlon yn dilyn hynny mae'n bosib y bydd gennych hawl i wneud apêl yn erbyn penderfyniad y Cyngor i'r Gwasanaeth Apelau Annibynnol. Gellir cael mwy o wybodaeth o gyrchu: www.appeals.service.gov.uk

Gallwch gael mwy o wybodaeth drwy gyrchu ein gwefan: http://www.carmarthenshire.gov.uk/Cymraeg/cyngorademocratiaeth/trethycyngor/Pages/Home.aspx

Mae cyngor di-dâl ac annibynnol ynghylch eich hawliau lles ar gael yn y Swyddfa Cyngor ar Bopeth. Mae manylion eich swyddfa leol ar gael drwy gyrchu www.citizensadvice.org.uk

Mae Ffederasiwn Canolfan y Gyfraith hefyd yn gweithredu llinell gymorth Cyngor Cyfreithiol Cymunedol (yng Nghymru a Lloegr) Ffoniwch 0845 345 4345 neu cysylltwch â hwy ar y wefan www.communitylegaladvice.org.uk.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar ein gwefan ni: http://www.carmarthenshire.gov.uk/Cymraeg/cyngor/benefits/Pages/home.aspx